

Adroddiad Cryno ar yr Arolygiad

Urbasba

Dyddiad yr arolygiad: 11 Mai 2022

Dyddiad cyhoeddi: 12 Awst 2022



Mae'r ddogfen gryno hon yn rhoi trosolwg o ganlyniad yr arolygiad



Ar y cyfan, canfuom fod y gwasanaeth yn rhoi profiad cadarnhaol i'r cleifion mewn amgylchedd modern. Roedd y staff yn frwdfrydig ac yn dangos awydd i ddarparu profiad o ansawdd i'r cleifion.

Gwnaethom nodi ychydig o feysydd i'w gwella ac ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau.

Roedd yr arolygiad hwn yn canolbwyntio ar y gwasanaeth a'r triniaethau a ddarperir i'r cyhoedd ac nid y ddarpariaeth ddysgu ehangach a ddarperir gan Goleg Caerdydd a'r Fro.

Sylwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.



Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Urbasba, Coleg Caerdydd a'r Fro, ar 11 Mai 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC.

Mae'r fersiwn gryno hon o'r adroddiad wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Mae adroddiad llawn, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac sy'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol, ar gael ar ein [gwefan](#).



Ansawdd profiad y claf



Crynodeb cyffredinol

- Ar y cyfan, canfuom fod y gwasanaeth yn darparu triniaethau i'r cleifion mewn amgylchedd croesawgar a modern ac roedd gan y gwasanaeth fecanweithiau priodol ar waith i helpu i roi profiad cadarnhaol i'r cleifion.

Yr hyn a ganfuom a wnaeth y gwasanaeth hwn yn dda

- Roedd amgylchedd y cleifion yn groesawgar ac yn fodern

Yng ngeiriau'r cleifion:

Cawsom un holiadur wedi'i gwblhau.

Darparodd y cleifion y sylwadau canlynol i ni:

"Gwasanaeth ardderchog"

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol



Crynodeb cyffredinol

- Ar y cyfan, canfuom fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer ar gyfer cynnal a chadw'r offer laser a sicrhau ei ddiogelwch parhaus. Roedd templedi dogfennau ymgynghori â chleifion a dogfennau cydsyniad cleifion yn unffurf ac yn cynnwys lefel briodol o fanylder.

Yr hyn a ganfuom a wnaeth y gwasanaeth hwn yn dda

- Roedd trefniadau addas ar gyfer sicrhau diogelwch y laser a'i gynnal a'i gadw
- Roedd templedi ymgynghori â chleifion, a thempledi cydsyniad cleifion addas

Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Rhaid i ffurflenni ymgynghori a chydsynio fod wedi'u llofnodi'n llawn gan y claf a gweithredwr y laser pan fo angen
- Dylid adnewyddu hyfforddiant Craidd Gwybodaeth bob tair blynedd



Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol

- Ar y cyfan, canfuom fod staff y gwasanaeth yn frwdfrydig ac yn wybodus am y triniaethau a ddarperir ac yn awyddus i sicrhau bod triniaethau'n cael eu darparu mewn modd diogel ac effeithiol.

Yr hyn a ganfuom a wnaeth y gwasanaeth hwn yn dda

- Gwelsom fod y rheolwyr yn staff brwdfrydig a gwybodus

Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Sicrhau bod tystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y rheolwr cofrestredig a gweithredwr y laser yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd

Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu o fewn atodiadau adroddiad arolygu llawn.

Gofynnwn i'r bwrdd iechyd gymryd camau brys pan fyddwn yn nodi pryderon sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion. Mae'r pryderon hyn wedi'u hamlinellu yn yr atodiadau ac yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y bwrdd iechyd i amddiffyn diogelwch cleifion ac sydd wedi'u cymeradwyo gennym ni. Rydym hefyd yn darparu tabl manwl o welliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a gwella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, rydym yn amlinellu pryderon a godwyd ac yn cydnabod y rhai a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.

Ar yr adeg briodol, mae AGIC yn gofyn i'r bwrdd iechyd gadarnhau bod camau wedi'u cymryd yn unol ag ymatebion rheolwyr a ddogfennwyd yn y cynllun gwella. Rydym hefyd yn gofyn i fyrddau iechyd ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r camau a gymerwyd a/neu'r cynnydd a wnaed.

